**Eitem ar yr agenda: 12**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**20 MEHEFIN 2005**

**Adroddiad gan y Clerc**

**NEWID I'R DIRPRWYAETHAU I'R PRIF SWYDDOG TÂN**

**DIBEN YR ADRODDIAD**

1. Cytuno ar newid i'r dirprwyaethau i'r Prif Swyddog Tân o ganlyniad i'r gweithdrefnau newydd ar gyfer disgyblu, cwynion a galluogrwydd.

**CEFNDIR**

2. Mae'r ddirprwyaeth bresennol i'r Prif Swyddog Tân, y cytunwyd arni yng Ngorffennaf 2004, yn darparu ar gyfer dirprwyo'r holl faterion personél, gyda rhai eithriadau. Un o'r eithriadau yw "bod yn banel apêl dan ddarpariaethau Rheoliadau (Disgyblu) y Gwasanaeth Tân 1985 neu mewn materion disgyblu sy'n effeithio ar staff llywodraeth leol dan gytundebau'r Cyd-Gyngor".

3. Mabwysiadwyd gweithdrefnau newydd ar gyfer disgyblu, cwynion a galluogrwydd yn gynharach eleni a daethant i rym ar 1 Chwefror 2005. Diddymwyd rheoliadau 1985 hefyd.

4. Mae angen newid geiriad y ddirprwyaeth i'r Prif Swyddog Tân i adlewyrchu'r newidiadau hyn. Cytunodd y Panel Gweithredol i argymell newid o'r fath ar 25 Ebrill.

**ARGYMHELLIAD**

5. Gwahoddir yr Awdurod i gytuno y dylid newid yr eithriad perthnasol o'r ddirprwyaeth ynghylch materion personél i ddarllen:

"bod yn banel apêl dan y gweithdrefnau disgyblu, cwynion a galluogrwydd lle rhoddir y swyddogaeth honno i'r awdurdod tân".